The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste
BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
E-bost: awelymor@planninginspectorate.gov.uk

At yr Ymgeisydd
Trwy e-bost yn unig

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 19 Rhagfyr 2022

Annwyl Syr/ Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 17**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a sylwadau ysgrifenedig**

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi adolygu'r ymatebion i'w cwestiynau ysgrifenedig cyntaf [PD-009] a gwybodaeth arall a dderbyniwyd erbyn Terfynau Amser dilynol. Ar ôl byrhau Gwrandawiad Mater Penodol 3, rydym wedi penderfynu ceisio gwybodaeth ychwanegol gan yr Ymgeisydd i helpu i ystyried y Datblygiad Arfaethedig. Mae cwestiynau o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (EPR) (R17Qs) wedi'u hamlinellu yn Atodiad A. Fe'u cyfeirir at yr Ymgeisydd yn unig; fodd bynnag, caiff unrhyw barti arall â buddiant neu unigolyn arall ymateb os hoffai wneud hynny.

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth a geisir yw **Terfyn Amser 4, 30 Ionawr 2023**. Byddai'r ExA yn croesawu sylwadau ar y cyfryw ymatebion gan **Gyngor Sir Ddinbych** ac unrhyw bartïon eraill â buddiant erbyn **Terfyn Amser 5, 6 Chwefror 2023**.

Yn gywir

*Jon Hockley*

**Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

Cwestiynau o dan Reol 17 yr EPR
Disgwylir ymatebion erbyn **Terfyn Amser 4: 30 Ionawr 2023.**

| R17Q | Cwestiwn at: | Cwestiwn |
|---|---|---|
| 2.1 | Yr Ymgeisydd | **Gofyniad 15 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)**<br><br>Mae Gofyniad 15(1) y dDCO [REP3-006] yn datgan “caiff gwaith adeiladu’r gwaith ar y tir a symudiadau traffig cysylltiedig ag adeiladu i safle’r Gwaith perthnasol neu oddi yno ddigwydd rhwng 0700 a 1900 o’r gloch o ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn unig, gyda dim gweithgarwch ar ddydd Sul na gwyliau banc”.<br><br>Yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) [REP1-056], mae Cyngor Sir Ddinbych (DCC) yn datgan “Nid yw’r Cyngor yn cytuno â’r oriau gweithredu a nodir yn 15 (1)” ac “I ddiogelu amwynder meddianwyr neu eiddo preswyl sy’n agos i’r gwaith ar y tir, mae’r Cyngor o’r farn y dylai’r oriau gwaith gael eu cyfyngu i: 8am – 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 1pm ar ddydd Sadwrn, a dim gweithio ar ddydd Sul a Gwyliau Banc”.<br><br>Yn ogystal, mae’r ExA yn nodi bod prosiectau tebyg (e.e. Dwyrain Anglia 2) wedi cyfyngu oriau gweithio ar ddydd Sadwrn i rhwng 7am ac 1pm.<br><br>A wnewch chi roi cyfiawnhad dros yr oriau gwaith a gynigir. |
| 2.2 | Yr Ymgeisydd | **Gofyniad 15 y dDCO**<br><br>Mae Gofyniad 15(2) y dDCO [REP3-006] yn rhestru sawl math o waith a/neu weithrediad a allai ddigwydd y tu allan i’r amserau a nodir yn 15(1), yn amodol ar gytundeb o flaen llaw gan yr awdurdod cynllunio perthnasol. |

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

Cwestiynau o dan Reol 17 yr EPR
Disgwylir ymatebion erbyn **Terfyn Amser 4: 30 Ionawr 2023.**

| | | |
|---|---|---|
| | | Er bod DCC yn ei LIR [REP1-056] yn "derbyn bod rhai gweithgareddau gwaith yn sensitif o ran amser ac felly nid yw'n gwrthwynebu gweithio y tu allan i oriau gwaith pan fo'r angen", mae'r Cyngor o'r farn y "dylid cymhwyso cyfnod rhybudd o 1 wythnos". Yn ogystal, mae'r Cyngor o'r farn bod "meini prawf 15 (2) (c) 'ar gyfer y gwaith glanfa' a (d) 'ar gyfer unrhyw elfen arall o'r gwaith ar y tir y mae amser yn allweddol iddo' wedi'u geirio'n rhy amwys" ac "felly dylai'r meini prawf a gynhwysir yn 15 (2) fod yn fwy manwl gywir a datgan yn glir y gweithgareddau adeiladu y mae'n angenrheidiol eu cynnal y tu allan i oriau gwaith cymeradwy, fel y gellir eu dehongli a'u gorfodi'n glir".<br><br>Rhowch gyfiawnhad dros eiriad presennol Gofyniad 15 (2) [REP3-006] gan gynnwys:<br><br>i. Cynnwys a geiriad arfaethedig "glanfa" ac "elfennau'r gwaith ar y tir y mae amser yn allweddol iddynt";<br>ii. Y sail resymegol dros gynnwys danfon a dadlwytho llwythi anghyffredin;<br>iii. Sut mae'r gofyniad yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd brys;<br>iv. Pam y cynigir "hysbysu" yn hytrach na "chymeradwyo" gweithio'n barhaus am 24 awr o ran technegau gosod di-ffos; a<br>v. Pham na nodir cyfnod rhybudd neu gwblhau. |
| 2.3 | Yr Ymgeisydd | **Gofyniad 18 y dDCO**<br><br>Mae DCC yn ei LIR [REP1-056] o'r farn nad yw Gofyniad 18 y dDCO [REP3-006] yn amddiffyn pob eiddo preswyl yng nghyffiniau'r is-orsaf yn ddigonol ac, ymhellach, bod angen i ofynion gael eu cynnwys i osod y gweithdrefnau i'w dilyn os derbynnir cwynion sŵn.<br><br>Mae'r ExA yn nodi o ymateb yr Ymgeisydd i'r LIR [REP2-004] bod yr Ymgeisydd yn agored, mewn egwyddor, i ychwanegu manylion eraill at y gofyniad ynglŷn â |

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

Cwestiynau o dan Reol 17 yr EPR
Disgwylir ymatebion erbyn **Terfyn Amser 4: 30 Ionawr 2023.**

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion, ond nid yw'n cytuno â'r geiriad a gynigir gan DCC; mae'n ystyried bod y geiriad presennol yng Ngofyniad 18 eisoes yn amddiffyn yr holl eiddo preswyl yn ddigonol.<br><br>A wnewch chi:<br><br>a. Esbonio sut mae'r Gofyniad presennol yn amddiffyn meddianwyr yr **holl** eiddo preswyl yn ddigonol;<br>b. Rhoi diweddariad ar drafodaethau â DCC ynglŷn â chytuno ar eiriad ar gyfer y Gofyniad mewn perthynas â gweithdrefn cwynion sŵn;<br>c. Amlinellu sut y bydd cwynion ynglŷn â dirgryniad yn cael eu trin; a<br>ch. Rhoi diweddariad ar unrhyw drafodaethau â Memoria Ltd ynglŷn â materion sŵn ac aflonyddu a godwyd yn RR-030 ac RR-031. |
| 2.4 | Yr Ymgeisydd | **Sŵn a'r Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol (OCoCP)**<br><br>Mae Tabl 4, Tudalen 42 o Gyfrol 3, Pennod 10 y Datganiad Amgylcheddol [APP-071] yn nodi y gallai diwygiadau i oriau gwaith mewn lleoliadau penodol gael eu cytuno gyda DCC trwy gytuno ar y CoCP terfynol. Mae'n ymddangos bod Gofyniad 15 y dDCO [REP3-006] yn awgrymu y gallai hyn fod yn wir hefyd. Nid yw'n ymddangos bod yr OCoCP [REP2-043] yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y ddarpariaeth hon.<br><br>Diweddarwch y CoCP Amlinellol i adlewyrchu hyn neu rhowch gyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny. |